





Profion smotyn gwaed

Llyfryn hawdd ei ddarllen am brofion sgrinio eich babi newydd



Yn y llyfryn yma

Tudalen



Eich dewis

3



Am y profion yma

5



Clefyd y cryman-gelloedd

7



Ffibrosis systig

7



Hypothyroidedd etifeddol

9



Clefydon metabolig a
etifeddwyd

10



Canlyniadau'r prawf

11



Eich dewis



Mae gwybodaeth yn y llyfryn yma am y profion gall eich babi eu cael. Mae'r profion yn gallu dod o hyd i broblem ddifrifol sydd efallai'n effeithio ar iechyd eich babi. Gallen nhw ddangos bod eich babi o bosib angen mwy o ofal.

Mae'r profion yn gallu dod o hyd i broblemau cyn i chi sylwi arnyn nhw. Efallai fyddan nhw ddim yn dod o hyd i bob problem.

Os byddwn ni'n dod o hyd i broblem yn gynnar gallwn ni helpu eich babi.



Chi fydd yn dewis a fydd eich babi'n cael y profion yma.

Nid oes rhaid i chi gael y profion i gyd.

Gallwch chi ddewis pa brofion rydych chi eisiau i'ch babi eu cael.



Rydyn ni'n awgrymu y dylai eich babi gael pob un o'r profion gan y gallwn ni ddod o hyd i broblem yn gynnar.

Os byddwn ni'n dod o hyd i broblem yn gynnar gallwn ni helpu i gadw eich babi'n iach.



Os byddwch chi'n gwrthod y prawf yna gallwch chi newid eich meddwl yn nes ymlaen a dewis bod eich babi'n cael y profion.

Gallai eich babi gael bron y cyfan o'r profion cyn ei ben-blwydd yn un oed.



Ond rhaid i'r prawf am ffibrosis systig gael ei wneud cyn bod eich babi'n 8 wythnos oed.



Mae croeso i chi siarad gyda'ch bydwraig neu feddyg os ydych chi'n poeni.

Gallan nhw eich helpu i benderfynu ydych chi eisiau i'ch babi gael y profion yma.



Am y profion yma



Fyddwn ni ddim yn dangos canlyniadau'r profion i neb heblaw am staff iechyd sydd angen eu gweld nhw.



Mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig neu ymwelydd iechyd am unrhyw broblemau iechyd sydd gennych chi neu dad eich babi; efallai fydd gan eich babi'r un problemau.



Mae'r profion smotyn gwaed yn chwilio am fathau prin a difrifol o salwch.

Mae dod o hyd i'r mathau yma o salwch yn gynnwys yn golygu gallwn ni helpu babanod i aros yn iach.



Pan mae'ch babi'n 5 diwrnod oed bydd staff iechyd yn pigo sawdl eich babi.

Bydd y staff yn casglu rhai diferion o waed ar gerdyn.



Cyn y prawf, gwnewch yn siŵr fod eich babi'n gynnes ac yn gyfforddus.

Magwch eich babi, a'i fwydo.

Efallai bydd eich babi'n teimlo ychydig o boen pan fydd y staff yn pigo'i sawdl.



Weithiau rydyn ni angen gwneud ail brawf smotyn gwaed yn nes ymlaen.

Nid yw hyn yn golygu bod rhywbeth yn bod ar eich babi.



Clefyd y cryman-gelloedd



Mae clefyd y cryman-gelloedd yn glefyd prin iawn yng Nghymru.

Mae'n glefyd difrifol iawn sy'n effeithio ar y gwaed.

Gallwch chi gael y clefyd gan eich rhieni. Os byddwch chi'n cael y clefyd, bydd e gennyh chi am weddill eich oes.



Mae clefyd y cryman-gelloedd yn gallu rhoi anaemia i chi. Mae'n golygu does dim digon o ocsigen yn mynd i mewn i'ch gwaed. Byddwch chi'n welw, yn flinedig iawn ac yn wan.

Mae clefyd y cryman-gelloedd yn gallu achosi poenau drwg iawn i chi, a mathau difrifol iawn o salwch.




Gall babanod â chlefyd y cryman-gelloedd gael moddion (ffisig) yn fuan ar ôl y geni.

Bydd y gwahanol fathau o fffisig yn helpu i'w cadw nhw'n iach.




Ffibrosis systig



Enw Saesneg fffibrosis systig yw *cystic fibrosis* neu CF.

Mae fffibrosis systig yn gyflwr prin iawn yng Nghymru.

Mae fffibrosis systig yn effeithio ar ysgyfaint a stumog y babi.



Mae fffibrosis systig yn golygu bod hylif gludiog yn llenwi'r ysgyfaint a'r stumog.



Mae babanod sydd â fffibrosis systig yn gallu cael bwyd a moddion arbennig, a ffisiotherapi.

Math o driniaeth yw ffisiotherapi sy'n helpu i glirio hylif gludiog o'r ysgyfaint.

Mae'r moddion a'r ffisiotherapi'n helpu babanod i fod yn iach ac i fyw'n hirach.



Hypothyroidedd etifeddol



Enw Saesneg hypothyroidedd etifeddol yw *congenital hypothyroidism* neu CHT.

Mae babanod â hypothyroidedd etifeddol yn brin o thyroxin, sef deunydd sy'n eich helpu i dyfu.

Mae hypothyroidedd etifeddol yn glefyd prin iawn yng Nghymru.



Dydi babanod â hypothyroidedd etifeddol ddim yn tyfu'n dda.

Os na fyddan nhw'n cael triniaeth fe allai'r babanod yma fynd yn anabl a datblygu anableddau dysgu.



Mae'n bosib rhoi moddion i fabanod â hypothyroidedd etifeddol.

Mae'r moddion yma'n eu helpu i aros yn iach.



Clefydon metabolig a etifeddwyd



Ychydig iawn o fabanod yng Nghymru sy'n etifeddu clefyd metabolig.

Mae rhai mathau o fwyd yn achosi problemau i fabanod sydd wedi etifeddu clefyd metabolig.

Mae'r prawf yn chwilio am 6 o'r clefydon yma.



Os na fydd y clefyd yn cael y math cywir o sylw, fe allai wneud eich babi'n sâl iawn neu fe allai farw.

Gallwn ni ddweud wrthy'ch chi pa fathau o fwyd mae'ch babi'n gallu neu'n methu eu bwyta er mwyn aros yn iach.



Canlyniadau'r prawf



Dylech chi gael y canlyniadau erbyn y dyddiad bydd eich babi'n 8 wythnos oed.

Os byddwn ni'n meddwl bod problem byddwn ni'n cysylltu â chi cyn hynny.



Ni fydd y clefydon yma ar y mwyafrif o fabanod.

Os oes un o'r clefydon yma ar eich babi, byddwn ni'n ei anfon at arbenigwr.

Rydyn ni weithiau'n dod o hyd i glefydon eraill. Efallai bydd angen mwy o brofion ar y babanod yma.



Byddwch chi'n cael llyfr coch lle gallwch chi gadw cofnod o brofion iechyd eich babi. Cadwch y llyfr coch yn saff.

Ewch â'r llyfr gyda chi pan fyddwch chi'n gweld unrhyw un i siarad am iechyd eich babi.



Os byddwch chi'n symud tŷ mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwaig neu ymwelydd iechyd.



Rydyn ni'n cadw'r cardiau smotyn gwaed am 5 mlynedd o leiaf.

Efallai byddwn ni'n eu defnyddio:

- i wirio canlyniadau'r prawf eto
- i wneud profion eraill mae'ch babi o bosib eu hangen
- i'n helpu i wella'r profion
- i'n helpu i ddysgu sut mae gwella iechyd babanod – gwaith ymchwil yw'r enw ar hwn.



Mae gwaith ymchwil yn helpu i wella'r profion.

Mae siawns isel y gallai'r bobl sy'n gwneud y gwaith ymchwil ofyn am gael cwrdd â chi.

Dywedwch wrth eich bydwraig os nad ydych chi'n fodlon iddyn nhw ofyn i chi.



© Hawlfraint y Goron 2020. Datblygwyd y wybodaeth yn wreiddiol gan Raglen Sgrinio Iechyd y Cyhoedd yn Lloegr (<https://www.gov.uk/topic/population-screening-programmes>) ac mae'n cael ei defnyddio dan fersiwn 3.0 o Drwydded y Llywodraeth Agored.